**CRYNODEB ANNHECHNEGOL - ADRODDIAD ECOLEG (AWST 2025)**

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ran FCC Environment. Mae'n darparu canlyniadau cyfres o arolygon ecoleg a gynhaliwyd yn Chwarel Llanddulas yn 2025 er mwyn pennu maint yr effeithiau ecolegol posibl sy'n gysylltiedig â datblygu'r safle.

Yn wreiddiol, roedd y safle yn destun astudiaeth ben desg, arolwg cynefin Cam 1 estynedig a chyfres o arolygon rhywogaethau a warchodir rhwng 2017-2019, ac astudiaeth ben desg ddilynol ac arolwg cynefin Cam 1 estynedig yn 2022. Ar gais Cyngor Conwy, mae'r arolygon diweddaru isod wedi cael eu cynnal yn 2025. Cynhaliwyd pob arolwg gan ddilyn arweiniad arferol yn unol ag arfer gorau. Yr arolygon a gynhaliwyd yw:

• Arolwg cynefin Cam 1 estynedig

• Arolwg eDNA madfall ddŵr gribog triturus cristatus, ac

• Arolwg ystlumod mewnol/allanol ar adeiladau'r safle.

Yn seiliedig ar newid yn nefnydd y safle, a diffyg rheolaeth mewn rhai ardaloedd, mae gwerth ecolegol y cynefinoedd ar y safle wedi cael eu hisraddio ers yr asesiad blaenorol.

Mae cynefinoedd o bwys sy'n parhau'n bresennol yn cynnwys iseldir coed collddail cymysg, cynefin tir noeth gyd rhywogaethau o flodau gwyllt ac ardaloedd mawr o gynefin glaswelltir cymysg. Roedd cynefinoedd o werth ecolegol is yn cynnwys adeiladau a llawr caled ar y safle, ardaloedd bychan gwasgaredig o brysgoed ac ardaloedd mwy o brysgoed heb lawer o rywogaethau, wedi'u ddominyddu gan neu ddau o rywogaethau. Fe fydd rhai o'r cynefinoedd gwerth uwch yn cael eu colli i hwyluso'r datblygiad, serch hynny mae yna gyfleoedd i reoli ardaloedd a gedwir er mwyn cynyddu eu gwerth i fioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd eraill, megis glaswelltir sydd wedi dirywio drwy reolaeth aneffeithiol dros y blynyddoedd diweddar.

Canlyniad 'negyddol' oedd yn arolwg eDNA madfall ddŵr gribog a gynhaliwyd ar ddau bwll chwarae (P1 a P2), ac mae hyn yn cyd-fynd ag arolygon a gynhaliwyd ar yr un pyllau yn 2017 a 2019. O ganlyniad, nid oes lle i gredu bod madfallod dŵr cribog yn bresennol ar y safle.

Ni argymhellir arolygon pellach na mesurau lliniaru mewn perthynas â'r madfallod dŵr cribog ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth o ystlumod yn nythu yn rhan o'r asesiad, ac addasrwydd isel oedd gan y strwythurau ar y safle i gefnogi ystlumod sy'n nythu. Ni argymhellir arolygon pellach ar hyn o bryd; serch hynny fe argymhellir bod cyfres lawn o arolygon ystlumod yn cael eu cwblhau i lywio cais cynllunio ar y safle hwn yn y dyfodol. Os deuir o hyd i dystiolaeth o ystlumod yn nythu, mae lle i gredu y gellir darparu digonedd o fesurau lliniaru ar y safle yn lle'r nythod a gollir er mwyn sicrhau Statws Cadwraeth Ffafriol ystlumod ar y safle ac yn yr ardal.